

Ystadegau Medr

Mesurau monitro cydraddoldeb hil ar gyfer addysg uwch: rhwng mis Awst 2016 a mis Gorffennaf 2025

Cyfeirnod: Sta/Medr/14/2026
Dyddiad: 22 Hydref 2026
Dynodiad: Ystadegau Swyddogol
E-bost: HEStats@medr.cymru

Crynodeb: Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gyhoeddwyd gan UCAS ac a gasglwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), gan roi ffocws penodol ar gefndiroedd ethnig y rhai sy'n cyflwyno cais i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, sy'n astudio mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru a staff sy'n gweithio mewn prifysgolion yng Nghymru.

Thema: Addysg Uwch

Ffynhonnell: Data diwedd cylch UCAS a chofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)



Cynnwys

Prif bwyntiau.....	1
Cyflwyniad.....	3
Myfyrwyr – Data UCAS.....	4
Myfyrwyr – Data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).....	12
Staff.....	17
Diffiniadau a geirfa.....	30
Ffynonellau data a methodoleg	32
Talgrynnu.....	33
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd	33
Ystadegau cysylltiedig	35
Gwybodaeth gyswilt	37

Prif bwyntiau

Ymgeiswyr, ceisiadau a chyfraddau cynigion

- Mae cyfrannau'r [ymgeiswyr](#) a [cheisiadau](#) UCAS â'u domsil yn y DU i gyrsiau israddedig amser llawn yn narparwyr Addysg Uwch (AU) Cymru a oedd o [gefndir ethnig leiafrifol](#) wedi cynyddu ar y cyfan rhwng 2016 a 2025. Roedd hyn yn wir am bob un o'r grwpiau cefndir ethnig leiafrifol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (Asiaidd, Du, Cymysg ac Arall).
- Mae canran yr ymgeiswyr y gwnaed [cynnig](#) iddynt wedi bod yn gyson uwch ar gyfer y rhai o gefndir Gwyn neu gefndir ethnig Cymysg na'r rhai o gefndir Asiaidd, Du neu gefndir ethnig Arall. Roedd hyn yn wir ar gyfer ymgeiswyr 18 oed ac ymgeiswyr o bob oed.
- Mae cyfran yr ymgeiswyr a gafodd [eu lleoli ar gyfer mynediad](#) i addysg uwch (a dderbyniwyd ar gwrs) a oedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol wedi cynyddu ar y cyfan rhwng 2016 a 2025.

Myfyrwyr

- Mae cyfran y [dechreuwyr](#) israddedig o gefndiroedd ethnig leiafrifol â'u [domsil](#) yn y DU yn narparwyr AU Cymru wedi cynyddu o 10.3% yn 2016/17 i 19.8% yn 2024/25. Ceir tuedd gyffredinol bod cyfran gynyddol o ddechreuwyr yn dod o bob un o'r grwpiau cefndir ethnig Asiaidd, Du, cefndir ethnig Cymysg a chefnidir ethnig Arall, gyda'r cynnydd mwyaf ymhlith y rhai o gefndir ethnig Asiaidd.
- Rhwng 2016/17 a 2024/25, mae myfyrwyr o gefndir ethnig Gwyn yn gyson wedi bod yn fwy tebygol o gael dyfarniad gradd anrhydedd dosbarth cyntaf na myfyrwyr o unrhyw gefndir ethnig arall.
- Mae myfyrwyr o gefndir ethnig Du yn gyson wedi bod yn fwy tebygol o gael dyfarniad gradd ail ddosbarth is neu drydydd dosbarth na myfyrwyr o gefndir ethnig arall.

Staff

- Mae cyfran y staff, yn rhai academiaidd ac anacademaidd, o gefndiroedd ethnig leiafrifol wedi cynyddu rhwng 2016/17 a 2024/25. Mae'r cynnydd mwyaf wedi bod ymhlith staff o gefndiroedd ethnig Asiaidd.
- Mae staff academiaidd o gefndir ethnig Gwyn wedi bod yn gyson yn fwy tebygol o fod â [chyflogaeth ar delerau parhaol](#) na staff o unrhyw gefndir ethnig arall.
- Ar gyfer staff anacademaidd hwythau, y rhai o gefndir ethnig Gwyn fu fwyaf tebygol o fod â chyflogaeth ar delerau parhaol. Fodd bynnag, yn 2024/25 bu cynnydd yng nghyfrannau'r staff o gefndir ethnig Arall a chefnidir Cymysg â chyflogaeth ar delerau parhaol a gostyngiad yn y gyfran o gefndir ethnig Gwyn, gan leihau'r gwahaniaeth.

- Mae [staff academiaidd](#) o gefndiroedd ethnig Du wedi bod yn fwy tebygol o fod yn cael eu cyflogi ar radd ganol neu is o'i gymharu â staff o gefndir ethnig arall. Cyflogwyd cyfran uwch o staff academiaidd o'r grwpiau cefndir ethnig Gwyn a chefnidir ethnig Arall yn y graddau uwch, o'i gymharu â'r grwpiau cefndir ethnig arall.
- Mae gwahaniaethau rhwng cefndiroedd ethnig yng nghyfran y [staff anacademaidd](#) a gyflogir ym mhob gradd wedi lleihau rhwng 2016/17 a 2024/25.

Llywodraethwyr

- Er bod nifer y llywodraethwyr yn sector addysg uwch Cymru yn isel, cynyddodd y gyfran a oedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol o 3.0% yn 2017/18 i 16.0% yn 2024/25.

Cyflwyniad

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys gwybodaeth yn ôl cefndir ethnig am:

- y rhai sy'n cyflwyno cais i addysg uwch trwy UCAS;
- niferoedd y myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, eu cyfraddau cadw a'u deilliannau gradd;
- niferoedd y staff mewn prifysgolion yng Nghymru a'u telerau cyflogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â thaenlen sy'n cynnwys y data llawn a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, sydd i'w gweld ar wefan Medr.

Cyhoeddwyd y mesurau gyntaf gan CCAUC i gyflawni cama gweithredu yng [Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru: 2022](#). Mae cyhoeddi'r fersiwn hon wedi'i diweddaru o'r mesurau'n darparu gwybodaeth gyfoes a all gyfrannu at fonitro cynnydd gyda'r cynllun hwn.

Mae Medr yn defnyddio'r data i oleuo ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac fel rhan o'n gweithgarwch monitro at ddibenion rheoleiddio a chyllido. Mae data a thystiolaeth yn goleuo ein datblygiadau polisi ac yn cyfrannu at ein hasesiad o'n cyfraniad at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Wrth i Medr ddatblygu ei brosesau rheoleiddio a chyllido, gallwn ddefnyddio'r data i oleuo ein dealltwriaeth am gyfle cyfartal, lles staff a myfyrwyr, profiad dysgwyr, a pherfformiad a risg.

Mae'r mesurau hefyd yn cyfrannu at fonitro nodau [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#), a hefyd at ddyletswyddau Medr o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (2022) a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Myfyrwyr – Data UCAS


Mae'r adran hon yn cynnwys data a gyhoeddwyd gan UCAS am ymgeiswyr a cheisiadau i gyrsiau addysg uwch israddedig amser llawn yn narparwyr Cymru yn eu [data diwedd cylch 2025](#). Gall nifer y ceisiadau y mae ymgeisydd yn eu gwneud amrywio, ac nid yw holl geisiadau ymgeisydd yn geisiadau i ddarparwyr AU yng Nghymru o reidrwydd.

Nid yw UCAS yn gynhyrchydd Ystadegau Swydddogol; felly, nid yw'r data hyn yn cael eu dosbarthu fel Ystadegau Swydddogol. Fodd bynnag, mae UCAS yn un o fabwysiadwyr gwirfoddol y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, sy'n darparu sicrwydd bod y data o ansawdd da ac yn ddibynadwy.

Ceisiadau

Mae ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd wedi bod yn rhoi cyfrif am gyfran gynyddol o geisiadau

Siart 1: Canrannau ceisiadau UCAS i gyrsiau israddedig amser llawn yn narparwyr AU Cymru gan ymgeiswyr â'u domisil yn y DU sydd o gefndiroedd ethnig leiafrifol, rhwng 2016 a 2025



Disgrifiad: Fe wnaeth cyfran y ceisiadau UCAS a wnaed gan ymgeiswyr o bob grŵp cefndir ethnig leiafrifol gynyddu ar y cyfan rhwng 2016 a 2025.

Data yn Nhabl 1.1 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Ar gyfer ceisiadau i addysg uwch yng Nghymru, mae nifer a chyfran y ceisiadau gan ymgeiswyr o bob grŵp cefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o flynyddoedd rhwng 2016 a 2025.

Mae nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Gwyn wedi amrywio, tra bo cyfran y ceisiadau wedi gostwng bob blwyddyn (ac eithrio cynnydd o 0.1 pwynt canran rhwng 2018 a 2019). Rhwng 2016 a 2025, gostyngodd cyfran y ceisiadau a wnaed gan y grŵp hwn o 86.5% i 77.4% (neu o 79,935 o geisiadau i 76,370). Roedd nifer y ceisiadau a wnaed gan y grŵp hwn yn 2025 yn is nag yn unrhyw flwyddyn arall a gofnodwyd ers 2020.

Ceisiadau gan y rhai sydd â chefnidir ethnig Asiaidd sydd wedi profi'r cynnydd mwyaf yn nifer a chyfran yr holl geisiadau ers 2016. Cododd nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd o 5,735 yn 2016 i 10,205 yn 2025, ac aeth o roi cyfrif am 6.2% o geisiadau lle'r oedd cefndir ethnig yr ymgeisydd yn hysbys, i roi cyfrif am 10.3%.

Yn 2025, roedd ceisiadau gan y rhai â chefnidir ethnig Du yn rhoi cyfrif am 5.2% o'r holl geisiadau lle'r oedd cefndir ethnig yn hysbys. Yn nodedig, yn 2025, cynyddodd cyfran y ceisiadau a wnaed gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Du 1.0 pwynt canran o'i gymharu â 2024. Hwn oedd y cynnydd canrannol blynyddol uchaf yng nghyfran y ceisiadau a welwyd ar gyfer unrhyw grŵp ethnig, ar gyfer yr holl flynyddoedd a ddangosir.


Rhwng 2016 a 2025, mae cyfran y ceisiadau a wnaed gan ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig Du ac ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig Cymysg wedi cynyddu 2.0 pwynt canran. Ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig Du, cynyddodd nifer y ceisiadau o 2,975 i 5,105. Ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig Cymysg, cododd ceisiadau o 2,780 i 4,970.

Mae cyfran y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig Arall wedi cynyddu'n raddol dros amser, o 1.1% yn 2016 i 2.1% yn 2025. Roedd 2,065 o geisiadau gan y grŵp ymgeiswyr hwn yn 2025; yn 2016, roedd 1,020 o geisiadau.

Ymgeiswyr

Yn 2025 cynyddodd cyfran yr ymgeiswyr o bob cefndir ethnig leiafrifol, ac eithrio'r rhai o gefndir ethnig Arall

Siart 2: Canrannau'r ymgeiswyr UCAS â'u domisil yn y DU i gyrsiau israddedig amser llawn yn narparwyr AU Cymru o gefndiroedd ethnig leiafrifol, rhwng 2016 a 2025



Disgrifiad: Fe wnaeth cyfran yr ymgeiswyr UCAS o bob grŵp cefndir ethnig leiafrifol gynyddu ar y cyfan rhwng 2016 a 2025.

Data yn Nhabl 1.2 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Roedd y duedd ymhlith ymgeiswyr yr un fath ag ar gyfer ceisiadau, gyda nifer a chyfran yr ymgeiswyr ar y cyfan o bob cefndir ethnig yn cynyddu rhwng 2016 a 2025.

Unwaith eto, roedd y cynnydd mwyaf yn y niferoedd a'r gyfran ymhlith y rhai â chefnidir ethnig Asiaidd (a gynyddodd o 4,720 i 8,065, a 7.3% i 11.8%) ac yna'r rhai o gefndir ethnig Cymysg (a gynyddodd o 2,260 i 3,875, a 3.5% i 5.7%).

Un ffactor sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn ymgeiswyr a cheisiadau gan y rhai â chefnidir ethnig leiafrifol yw cyfran gynyddol o ymgeiswyr i ddarparwyr AU Cymru sydd â'u domisil yn Lloegr. Gan bod gan boblogaeth Lloegr gyfran uwch o gefndiroedd ethnig leiafrifol na Chymru, mae'r newid hwn o ran ble y mae domisil ymgeiswyr hefyd yn

debygol o gael ei weld yn y newidiadau mewn cyfrannau o'r gwahanol gefndiroedd ethnig. Yn 2016, roedd 69.1% o ymgeiswyr â'u domisil yn y DU i ddarparwyr AU Cymru yn byw yn Lloegr (55.2% o'r ceisiadau); erbyn 2025, roedd hyn wedi cynyddu i 74.2% o ymgeiswyr â'u domisil yn y DU (60.9% o'r ceisiadau).


Cyfraddau cynnig

Mae canran y ceisiadau sy'n cael cynnig, sef y gyfradd gynigion fel y'i gelwir, wedi bod yn sylweddol is ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd, Du neu Arall na'r gyfradd gynigion ar y cyfan ar gyfer pob ymgeisydd bob blwyddyn rhwng 2016 a 2025. Roedd hyn yn wir pa un a edrychir ar y gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr 18 oed, ynteu'r un ar gyfer ymgeiswyr o bob oed. Fodd bynnag, nid yw'r gyfradd gynigion hon yn cyfrif a yw ymgeiswyr â chefnidiroedd ethnig gwahanol yn cyflwyno ceisiadau i wahanol fathau o gyrsiau nac a yw'r graddau a ragwelir ymhlith ymgeiswyr yn wahanol yn ôl cefndir ethnig, a fyddai'n effeithio ar y gyfradd gynigion.

Mae'r cyfraddau cynnig wedi amrywio trwy gydol y blynyddoedd rhwng 2016 a 2025; fodd bynnag, ceir rhai tueddiadau parhaus:

Mae cyfanswm y gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr 18 oed wedi cynyddu ar y cyfan ond mae ymgeiswyr o gefndir Asiaidd, Du ac Arall yn parhau i gael cyfraddau cynnig sylweddol is

Siart 3: Cyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr UCAS 18 oed â'u domsil yn y DU i gyrsiau israddedig amser llawn yn narparwyr AU Cymru yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016 a 2025



Disgrifiad: Mae cyfanswm y gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr 18 oed ymhlith pob grŵp ethnig wedi aros yn weddol sefydlog ers 2016, tra bo cyfraddau cynnig ar gyfer ymgeiswyr o gefndir Asiaidd, Du a chefnidir Arall wedi amrywio

Data yn Nhabl 1.3 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad


Yn 2025, roedd cyfanswm y gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr 18 oed yn 87.9%. Y cyfraddau cynnig ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig Gwyn ac ymgeiswyr o gefndir ethnig Cymysg (90.5% ac 88.3% yn y drefn honno) oedd y cyfraddau cynnigion uchaf.

Ymhlith ymgeiswyr 18 oed, y rhai â chefnidir ethnig Asiaidd fu â'r gyfradd gynigion isaf ers 2022. Yn 2025, roedd y gyfradd gynigion ar gyfer y grŵp hwn 13.8 pwynt canran yn is na'r gyfradd gynigion ar gyfer yr holl geisiadau (74.1%).

Roedd y cyfraddau cynigion ar gyfer ymgeiswyr 18 oed â chefnidir ethnig Du (74.3%) a chefnidir ethnig Arall (74.9%) 13.6 a 13.0 pwynt canran yn is na'r gyfradd gynigion ar gyfer yr holl geisiadau yn 2025.

Roedd gwahaniaethau ethnig mewn cyfraddau cynigion yn gyson yn fwy ymhlith ymgeiswyr o bob oed nag ymhlith ymgeiswyr 18 oed

Siart 4: Cyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr UCAS â'u domsil yn y DU o bob oed i gyrsiau israddedig amser llawn yn narparwyr AU Cymru yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016 a 2025



Disgrifiad: Roedd cyfanswm y gyfradd gynigion ar gyfer pob oedran yn 2025 yn 79.2% ac mae wedi cynyddu ers 2016, pan mai 75.3% ydoedd.

Data yn Nhabl 1.3 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Roedd y cyfraddau cynigion ar gyfer pob oedran yn is na'r cyfraddau cynigion ar gyfer ymgeiswyr 18 oed ar draws pob cefndir ethnig, gyda'r gwahaniaeth mwyaf ymhlith y rhai o gefndir ethnig Du (74.3% o'i gymharu â 54.6%).

Unwaith eto, roedd y cyfraddau cynigion ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig Gwyn neu gefndir ethnig Cymysg (83.0% ac 81.6% yn y drefn honno) yn uwch na chyfanswm y gyfradd gynigion (79.2%).


Roedd y gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr â chefnidir ethnig Du yn is nag ar gyfer unrhyw gefndir ethnig arall ym mhob blwyddyn. Rhwng 2016 a 2024, roedd y gyfradd gynigion ar gyfer ymgeiswyr â chefnidir ethnig Du wedi cynyddu'n fwy nag unrhyw grŵp arall, gan gynyddu 8.2 pwynt canran o 51.0% i 59.2%. Fodd bynnag, yn 2025 gostyngodd y gyfradd gynigion ar gyfer y grŵp hwn yn ôl i 54.6% - yr isaf iddi fod ers 2018.

Roedd y cyfraddau cynigion ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd (65.1%) ac ymgeiswyr o gefndir ethnig Arall (64.7%) yn debyg iawn i'w gilydd yn 2025 ac maent wedi bod yn debyg ers 2022.

Ymgeiswyr a dderbyniwyd

Mae cyfran yr ymgeiswyr a dderbyniwyd o gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu ers 2016.

Siart 5: Canrannau'r ymgeiswyr UCAS â'u domisil yn y DU a dderbyniwyd i gyrsiau israddedig amser llawn yn narparwyr AU Cymru o gefndiroedd ethnig leiafrifol, rhwng 2016 a 2025



Disgrifiad: Ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd sydd wedi bod yn rhoi cyfrif yn gyson am y gyfran uchaf o ymgeiswyr a dderbyniwyd o blith unrhyw gefndir ethnig leiafrifol. Roedd cyfanswm y gyfradd dderbyn ar gyfer ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn 18.3% yn 2025.

Data yn Nhabl 1.4 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Mae ymgeisydd a dderbyniwyd yn golygu ymgeisydd sydd wedi'i leoli ar gyfer mynediad i addysg uwch.

Mae nifer a chyfran yr ymgeiswyr a dderbyniwyd o gefndiroedd ethnig leiafrifol wedi amrywio ond wedi cynyddu'n raddol ar y cyfan rhwng 2016 a 2025. Mewn cyferbyniad, mae cyfran yr ymgeiswyr a dderbyniwyd o gefndir ethnig Gwyn wedi gostwng yn raddol

ers 2016, o 88.9% i 81.7% o'r ymgeiswyr a dderbyniwyd â chefnidir ethnig hysbys. Gostyngodd nifer yr ymgeiswyr yn y grŵp hwn rhwng 2016 a 2019, yna cododd tan 2021, cyn gostwng bob blwyddyn ers hynny.

Mae ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd wedi bod yn rhoi cyfrif yn gyson am y gyfran uchaf o'r ymgeiswyr a dderbyniwyd o gefndiroedd ethnig leiafrifol lle mae cefndir ethnig yn hysbys; yn 2025, 7.8% oedd hyn. Yr ail gyfran uchaf o ymgeiswyr a dderbyniwyd oedd y rhai o gefndir ethnig cymysg (4.7%), ac yna ymgeiswyr o gefndir ethnig Du (3.7%), yna ymgeiswyr o gefndir ethnig Arall (2.1%).

Cafwyd y cynnydd mwyaf yn y nifer a'r gyfran rhwng 2016 a 2025 ymhlith ymgeiswyr â chefnidir ethnig Asiaidd (o 1,065 i 1,700, neu 3.2 pwynt canran) ac yna'r rhai â chefnidir ethnig cymysg (o 675 i 1,025, neu 1.8 pwynt canran).


Myfyrwyr – Data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Daw'r data am fyfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru o gofnod myfyrwyr HESA ac fe'i cyhoeddir gan HESA fel ystadegau swyddogol.

Ymgeiswyr

Roedd bron i 1 ymhob 5 o'r holl ddechreuwyd mewn addysg uwch yng Nghymru o gefndir ethnig leiafrifol yn 2024/25

Siart 6: Canran y dechreuwyd â'u domisil yn y DU i gyrsiau israddedig yn narparwyr Cymru o gefndiroedd ethnig leiafrifol, rhwng 2016/17 a 2024/25



Disgrifiad: Mae ymgeiswyr o gefndir ethnig Asiaidd wedi bod yn rhoi cyfrif yn gyson am y gyfran uchaf o ymgeiswyr o unrhyw gefndir ethnig leiafrifol.

Data yn Nhabl 1.5 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Mae nifer a chyfran y dechreuwyd sy'n dod o gefndiroedd ethnig leiafrifol i addysg uwch mewn darparwyr yng Nghymru wedi cynyddu ar y cyfan rhwng 2016/17 a 2024/25. Mae cyfran y dechreuwyd o gefndiroedd ethnig leiafrifol wedi cynyddu o 10.3% yn 2016/17 i 19.8% yn 2024/25.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y dechreuwyd a chyfran yr holl ddechreuwyd ymhlith dechreuwyd â chefnidir ethnig Asiaidd. Aeth nifer yr ymgeiswyr â chefnidir ethnig Asiaidd o 1,665 yn 2016/17 i 3,335 yn 2024/25. Fel cyfran o'r holl ddechreuwyd lle'r oedd cefndir ethnig yn hysbys, roedd dechreuwyd â chefnidir ethnig Asiaidd yn rhoi cyfrif am 4.4% o'r dechreuwyd yn 2016/17 ac 8.1% o'r dechreuwyd yn 2024/25.

Roedd yr ail gynnydd mwyaf ymhlith dechreuwyd â chefnidir ethnig Du. Roedd 955 o ddechreuwyd â chefnidir ethnig Du yn 2016/17, o'i gymharu â 2,030 yn 2024/25. Fel cyfran o'r holl ddechreuwyd â chefnidir ethnig hysbys, dyblodd dechreuwyd â chefnidir ethnig Du o 2.5% o'r holl ymgeiswyr yn 2016/17 i 5.0% yn 2024/25.

Cadw

Roedd y datganiad cyntaf o fesurau Monitro Cydraddoldeb Hil yn cynnwys mesur o gadw myfyrwyr israddedig. Roedd y mesur hwn yn defnyddio Dangosyddion Perfformiad Addysg Uwch y DU a gynhyrchwyd gan HESA. Daeth HESA â Dangosyddion Perfformiad y DU i ben ar ôl cyhoeddi dangosyddion 2020/21.


O 2022/23 ymlaen, mae HESA wedi parhau i ddeillio data ar fyfyrwyr nad ydynt yn parhau o ddata cofnod myfyrwyr HESA, gan ddefnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar ddull Dangosyddion Perfformiad y DU a berchnogid yn wreiddiol gan HEFCE (y Swyddfa Fyfyrwyr bellach). Mae'r dull hwn yn cael ei weithredu o fewn y fframwaith Dyfodol Data mwy newydd ac mae'n defnyddio proses o baru niwlog i dracio myfyrwyr rhwng blynyddoedd academiaidd.

Er mwyn sicrhau sail gyson ar gyfer cymharu, dim ond data o 2022/23 ymlaen sy'n defnyddio meysydd parhad a ddeilliwyd o fframwaith Dyfodol Data HESA sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am y fethodoleg ar gyfer data ar fyfyrwyr nad ydynt yn parhau, cyfeiriwch at yr adran [Ffynonellau data a methodoleg](#).

Cynyddodd cyfran y dechreuwyr a gadwyd rhwng 2022/23 a 2023/24 ar gyfer dechreuwyr o gefndiroedd ethnig Asiaidd, Du a Gwyn.

Siart 7: Canran y dechreuwyr amser llawn i gyrsiau israddedig yn narparwyr Cymru a arhosodd mewn AU flwyddyn ar ôl mynediad, yn ôl cefndir ethnig



Disgrifiad: Roedd y gyfradd gadw ar gyfer holl ddechreuwyr 2023/24 o leiaf yn 77.2% neu'n uwch ar draws grwpiau ethnig hysbys. Gwelwyd cynnydd yn y rhan fwyaf o grwpiau ethnig o'i gymharu â'r cyfraddau ar gyfer ymgeiswyr 2022/23, ac eithrio'r rhai o gefndir Cymysg neu gefndir Arall.

Data yn Nhabl 1.6 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Roedd cyfran dechreuwyr 2023/24 a oedd yn dal i fod mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl mynediad yn amrywio rhwng 77.2% (dechreuwyr o gefndir ethnig Du) ac 89.1% (dechreuwyr o gefndir ethnig Gwyn). Ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig Gwyn a Chymysg a brofodd y cyfraddau cadw uchaf ar gyfer y ddwy flynedd a ddangosir.

Fe brofodd y rhan fwyaf o grwpiau ethnig welliant yn eu cyfraddau cadw o'i gymharu â 2022/23; roedd cynnydd o 4.6 pwynt canran yng nghyfran y dechreuwyr o gefndir Asiaidd a gadwyd a chynnydd o 2.1 pwynt canran yng nghyfran y dechreuwyr o gefndir Du a gadwyd.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth canrannol nodedig o hyd rhwng y cyfraddau cadw ar gyfer y grwpiau hyn a chyfanswm y gyfradd gadw (gan gynnwys y rhai ag ethnigrwydd anhysbys) o 86.2% yn 2023/24. Roedd y gyfradd gadw ar gyfer dechreuwyr 2023/24 o gefndir ethnig Du 9.0 pwynt canran yn is na chyfanswm y gyfradd gadw, tra bo'r gyfradd gadw ar gyfer dechreuwyr o gefndir ethnig Asiaidd 1.7 pwynt canran yn is.


Dosbarthiadau gradd

Mae'r adran hon yn bwrw golwg ar y dosbarthiadau gradd a ddyfarnwyd i fyfyrwyr â'u domisil yn y DU y dyfarnwyd gradd gyntaf iddynt gan ddarparwr yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi'u cofnodi fel rhai di-ddosbarth gan nad yw'r dyfarniad ar gyfer rhai cymwysterau'n cael ei briodoli i ddosbarth ar lefel gradd gyntaf. Mae hyn yn cynnwys graddau meddygol, graddau cyffredinol a chymwysterau aegrotat.

Nid yw myfyrwyr â dosbarthiad gradd anhysbys wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Enillodd cyfran uwch o fyfyrwyr o gefndir ethnig Gwyn radd Dosbarth Cyntaf na myfyrwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol

Siart 8: Dosbarthiadau gradd ar gyfer myfyrwyr â'u domisil yn y DU y dyfarnwyd gradd gyntaf iddynt mewn darparwyr AU yng Nghymru yn ôl cefndir ethnig, 2024/25



Disgrifiad: Enillodd y mwyafrif o fyfyrwyr ym mhob grŵp ethnig 2:1 (gan amrywio o 41.6% i 46.6%).

Data yn Nhabl 1.7 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Dosbarthiad gradd Dosbarth Cyntaf

O'i gymharu â 2023/24, mae cyfrannau'r myfyrwyr y dyfarnwyd gradd Dosbarth Cyntaf iddynt wedi cynyddu ar gyfer pob cefndir ethnig.

Fodd bynnag, dyfarnwyd gradd Dosbarth Cyntaf i gyfran uwch o raddedigion o gefndir ethnig Gwyn na graddedigion o unrhyw gefndir ethnig arall ym mhob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2024/25. Yn 2024/25, cafodd 30.1% o raddedigion â chefnidir ethnig Gwyn radd dosbarth cyntaf.

O'i gymharu, i raddedigion o gefndir ethnig Du y dyfarnwyd y gyfran isaf o raddau dosbarth cyntaf ym mhob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2024/25. Fodd bynnag, mae'r gyfran wedi cynyddu ers 2023/24, o 14.6% i 19.2%.

Dosbarthiad gradd ail ddosbarth uwch

Roedd cyfran y myfyrwyr a enillodd radd ail ddosbarth uwch yn debyg ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau cefndir ethnig. Roedd cyfrannau'r myfyrwyr y dyfarnwyd gradd ail ddosbarth uwch iddynt yn amrywio o 45.7% i 46.6% ymhlith grwpiau ethnig Asiaidd, Du,

Cymysg a Gwyn. Myfyrwyr o gefndir ethnig Asiaidd a enillodd y gyfran uchaf o raddau ail ddosbarth uwch (46.6%).

O'i gymharu, dyfarnwyd gradd ail ddosbarth uwch i 41.6% o fyfyrwyr o gefndir ethnig Arall, sef yr isaf o unrhyw grŵp ethnig.

Dosbarthiad gradd ail ddosbarth is

Parhaodd amrywiad yng nghyfran y graddedigion y dyfarnwyd gradd ail ddosbarth is iddynt, gyda myfyrwyr o gefndir ethnig Du, Asiaidd ac Arall yn hanesyddol yn cael cyfrannau uwch o raddau ail ddosbarth is. Fodd bynnag, mae'r cyfrannau hyn wedi gostwng. Yn 2016/17, dyfarnwyd gradd ail ddosbarth is i 31.6% o fyfyrwyr o gefndir Du, 28.0% o fyfyrwyr o gefndir Asiaidd a 27.6% o gefndir Arall. Erbyn 2024/25, 26.1, 23.2% a 20.6% yn y drefn honno oedd y cyfrannau hyn.

Yn y cyfamser, ar gyfer myfyrwyr o gefndiroedd ethnig Cymysg a Gwyn, dyfarnwyd graddau ail ddosbarth is i 20.5% ac 18.7% yn y drefn honno yn 2024/25.

Dosbarthiadau gradd trydydd dosbarth

Dyfarnwyd graddau trydydd dosbarth i gyfran uwch o raddedigion â chefnidir ethnig Du na graddedigion ag unrhyw gefndir ethnig arall ers 2016/17. Fodd bynnag, unwaith eto, mae'r bwlch rhwng cyfrannau'r myfyrwyr o gefndir ethnig Du o'i gymharu â chefnidiroedd ethnig eraill y dyfarnwyd cymhwyster gradd trydydd dosbarth iddynt wedi bod yn cau. Yn 2016/17, roedd 10.0% o'r holl raddau a ddyfarnwyd i raddedigion o gefndir ethnig Du yn raddau trydydd dosbarth ond erbyn 2024/25, 5.5% oedd y ganran hon.

Yn 2024/25, roedd cyfran y graddau trydydd dosbarth a ddyfarnwyd i'r grwpiau cefndir ethnig eraill i gyd rhwng 2.4% a 4.7%.

Graddau di-ddosbarth

Graddedigion o gefndir ethnig Arall enillodd y gyfran uchaf o raddau di-ddosbarth (7.5%), gyda graddedigion o gefndir ethnig Asiaidd (6.4%) yn dilyn wedyn.

Staff

Daw'r data am staff o gofnod Staff HESA ac fe'i cyhoeddir fel Ystadegau Swyddogol. Dim ond prifysgolion Cymru y mae'r adran hon yn eu cynnwys gan nad yw cofnod Staff HESA yn casglu gwybodaeth gan ddarparwyr addysg uwch eraill. Nid yw staff yn y Brifysgol Agored wedi'u cynnwys ychwaith gan bod data'r Brifysgol Agored yn y cofnod Staff yn cwmpasu staff ledled y DU gyfan ac nad oes modd ei rannu yn ôl gwledydd y DU.

Mae staff wedi'u grwpio'n staff academiaidd ac anacademiaidd, heb gynnwys y rhai sydd ar contract annodweddiadol. Staff annodweddiadol yw'r aelodau hynny o staff y mae eu contractau'n cynnwys trefniadau gweithio nad ydynt yn barhaol, yn cynnwys perthnasoedd cyflogaeth cymhleth a/neu yn cynnwys gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol. Nid yw data ar gyfer staff academiaidd ar contractau annodweddiadol wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad hwn oherwydd y gyfran uchel o staff â chefnidir ethnig anhysbys yng nghofnod Staff HESA. Byddwn yn parhau i fonitro'r grŵp hwn o staff a byddwn yn ystyried a ellir eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn yn y dyfodol.

Mae cefndir ethnig yn cael ei ddychwelyd ar gofnod staff HESA ar gyfer pob cenedligrwydd. Mae hyn yn wahanol i Gofnod Myfyrwyr HESA lle mae cefndir ethnig yn cael ei ddychwelyd ar gyfer myfyrwyr â'u domisil yn y DU yn unig. Mae staff anacademiaidd yn fwy tebygol o fod yn ddinasyddion y DU na staff academiaidd, a fydd yn cael effaith ar amrywiaeth y cefndiroedd ethnig rhwng y gwahanol fathau o staff.


Ymhlith staff academiaidd, mae cyfran y staff â chefnidir ethnig anhysbys yng nghofnod Staff HESA wedi cynyddu o 5.3% yn 2016/17 i 11.3% yn 2024/25. Gallai cefndir ethnig fod yn anhysbys os nad yw'r aelod o staff yn gwybod ei ethnigrwydd, os yw'n gwrthod darparu'r wybodaeth neu os nad yw'r wybodaeth gan y brifysgol. Ar gyfer staff anacademiaidd, mae lefel y cefndiroedd ethnig anhysbys wedi bod yn fwy sefydlog ac yn 2024/25, cofnodwyd fod gan 3.5% o staff anacademiaidd gefndir ethnig anhysbys yng nghofnod Staff HESA. Mae'r cyfrannau yn yr adran hon ar gyfer nifer y staff â phob cefndir ethnig wedi cael eu cyfrifo heb gynnwys y rhai sydd â chefnidir ethnig anhysbys.

Niferoedd y staff

Staff academiaidd

Mae cyfran y staff academiaidd o gefndir ethnig Asiaidd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2021/22

Siart 9: Canran y staff academiaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru o gefndiroedd ethnig leiafrifol, rhwng 2016/17 a 2024/25



Disgrifiad: Roedd staff o gefndir Asiaidd yn rhoi cyfrif am 11.5% o'r holl staff academiaidd yn 2024/25, a oedd yn sylweddol uwch na'r cyfrannau ar gyfer grwpiau ethnig leiafrifol eraill.

Data yn Nhabl 1.8 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Rhwng 2016/17 a 2024/25, mae nifer a chyfran y staff academiaidd o gefndiroedd ethnig leiafrifol wedi cynyddu ar y cyfan. Mae'r ddau fesur hyn wedi bod yn cynyddu'n flynyddol ymhlith staff â chefnidiroedd ethnig Asiaidd, Du a Chymysg, tra bo'r grŵp cefndir ethnig Arall wedi aros yn weddol sefydlog o ran nifer a chyfran. Mae cyfran y staff academiaidd ag unrhyw gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu o 10.7% yn 2016/17 i 19.6% yn 2024/25.


Staff o gefndir ethnig Asiaidd a gynyddodd fwyaf yn ystod y cyfnod hwn o ran nifer a chyfran, gan fynd o 560 i 1,130, neu o 5.8% i 11.5% o'r holl staff academiaidd â chefnidir ethnig hysbys.

Mewn cyferbyniad, mae nifer y staff academiaidd o gefndir ethnig Gwyn wedi gostwng ar gyfer y rhan fwyaf o flynyddoedd yn ystod y cyfnod hwn (ac eithrio 2022/23 i 2023/24, pan gododd dros dro i 8,110 ar gyfer y ddwy flynedd). Ers hynny mae wedi gostwng i 7,910 yn 2024/25. Er gwaethaf yr amrywiad yn y niferoedd, mae cyfran y staff academiaidd o gefndir ethnig Gwyn o gyfanswm yr holl staff â chefnidir ethnig hysbys wedi gostwng yn gyson bob blwyddyn.

Staff anacademaidd

Yn debyg i staff academiaidd, mae cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Asiaidd wedi cynyddu ers 2019/20

Siart 10: Canran y staff anacademaidd ym mhrifysgolion Cymru o gefndiroedd ethnig leiafrifol, rhwng 2016/17 a 2024/25



Disgrifiad: Mae cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Asiaidd wedi bod yn gyson uwch na grwpiau ethnig leiafrifol eraill. Yn 2024/25, roedd 3.6% o staff anacademaidd o gefndir Asiaidd.

Data yn Nhabl 1.8 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Fel gyda staff academiaidd, mae nifer a chyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu'n flynyddol rhwng 2016/17 a 2024/25. Fodd bynnag, er bod cyfanswm nifer y staff anacademaidd yn debyg i nifer y staff academiaidd (10,910 o'i gymharu â 11,085 yn 2024/25), roedd y gyfran o gefndir ethnig leiafrifol yn sylweddol is. Yn 2016/17, roedd 4.4% o staff anacademaidd o gefndir ethnig leiafrifol, gyda hynny'n codi i 7.5% yn 2024/25.


Mae'r cynnydd o ran nifer a chyfran wedi bod yn bennaf yn y grwpiau cefndir ethnig Asiaidd, Du a Chymysg, tra bo'r grŵp Cefndir ethnig arall wedi bod yn gymharol sefydlog. Roedd y cynnydd mwyaf o ran nifer a chyfran ymhlith staff â chefnid ethnig Asiaidd, a gynyddodd o 220 o staff yn 2016/17 i 380 yn 2024/25, neu o 2.1% o staff anacademaidd i 3.6%.

Telerau cyflogaeth

Staff academaidd

Bu cyfran uwch yn gyson o staff academaidd o gefndir ethnig Gwyn yn gweithio ar gontract parhaol, o'i gymharu â staff o gefndiroedd ethnig leiafrifol

Siart 11: Canran y staff academaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru â chyflogaeth ar delerau parhaol yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25



Disgrifiad: Roedd cyfrannau'r staff academaidd ar gontractau parhaol o gefndiroedd Arall, Asiaidd, Cymysg a Du yn eithaf tebyg yn 2024/25 (yn amrywio rhwng 60.7% a 64.7%). Roedd y gyfran o gefndir ethnig Gwyn yn 78.3%.

Data yn Nhabl 1.9 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Roedd gwahaniaethau rhwng grwpiau cefndir ethnig yn y cyfrannau o staff academaidd â chyflogaeth ar delerau parhaol. Roedd staff academaidd o gefndir ethnig Gwyn yn llawer mwy tebygol o fod â chyflogaeth ar delerau parhaol na'r rhai o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Yn 2024/25, roedd gan 78.3% o staff academaidd o gefndir ethnig Gwyn gyflogaeth ar delerau parhaol.


Roedd cyfrannau'r staff academaidd o gefndiroedd ethnig leiafrifol ar gontractau parhaol i gyd o fewn yr ystod rhwng 60.7% a 64.7%. Staff o gefndir ethnig Du oedd â'r gyfran isaf ar gontractau parhaol, a staff o grŵp ethnig Arall oedd â'r ail gyfran uchaf.

Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfran y staff o gefndir ethnig Gwyn a'r rhai o gefndiroedd ethnig Du neu Gymysg wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2016/17 a 2021/22. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi dechrau lleihau yn y blynyddoedd ers hynny, ar ôl i gyfrannau'r rhai o gefndiroedd ethnig Du a Chymysg ar delerau parhaol gynyddu.

Staff anacademaidd

Roedd cyfran uwch o staff anacademaidd o gefndir ethnig Gwyn ar contractau parhaol na grwpiau eraill, ond roedd y bwlch fel rheol yn llai nag ar gyfer staff academiaidd

Siart 12: Canran y staff anacademaidd ym mhrifysgolion Cymru â chyflogaeth ar delerau parhaol yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25



Disgrifiad: Mae'r bylchau rhwng cyfrannau'r staff anacademaidd ar contractau parhaol ar draws grwpiau ethnig wedi lleihau ers 2016/17. Yn 2024/25, roedd y cyfrannau ar gyfer pob grŵp ethnig yn amrywio o 74.6% (staff o gefndir Asiaidd) i 86.5% (staff o gefndir Gwyn).

Data yn Nhabl 1.9 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Yn yr un modd â staff academiaidd, staff anacademaidd o gefndir ethnig Gwyn oedd y mwyaf tebygol o fod â chyflogaeth ar delerau parhaol, gydag 86.5% o'r grŵp hwn ar delerau parhaol yn 2024/25. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaeth rhwng y grŵp ethnig Gwyn a grwpiau ethnig leiafrifol yn llawer llai ar gyfer staff anacademaidd. Er bod y bwlch canrannol rhwng y grŵp ethnig Gwyn a'r grŵp ethnig Du (y gyfran isaf) yn 17.6 pwynt canran, ar gyfer staff anacademaidd 11.9 pwynt canran oedd y bwlch rhwng y grŵp ethnig Gwyn a'r grŵp ethnig Asiaidd (y gyfran isaf).

Mae cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Du â chyflogaeth ar delerau parhaol wedi cynyddu'n sylweddol ar y cyfan o 67.6% yn 2016/17 i 76.3% yn 2024/25. Mae hyn wedi lleihau'r gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r rhai o gefndir ethnig Gwyn.

Gradd staff

Yn y dadansoddiad hwn, defnyddir y grwpiau graddau canlynol:

- Grŵp 1: Uwch reolwyr
- Grŵp 2: Athrawon
- Grŵp 3: Cyfrifoldeb rheoli/cyllidebol, arbenigwyr
- Grŵp 4: Cyfrifoldeb staff, cyfrifoldeb cyfyngedig/dim cyfrifoldeb rheoli, cyllideb tîm/dim cyfrifoldeb cyllidebol
- Grŵp 5: Dim cyfrifoldeb am staff na chyllideb, ychydig neu ddim profiad

Mae'r grwpiau hyn wedyn wedi cael eu cydgrynhoi'n wahanol ar gyfer staff academiaidd ac anacademaidd yn seiliedig ar ddosbarthiad staff ar draws graddau ar gyfer y ddau fath o staff. Ar gyfer staff anacademaidd nid yw Grŵp 2 yn berthnasol gan mai dim ond i staff academiaidd y mae'n berthnasol. Y cydgrynoadau a ddefnyddir yw:

Tabl 1: Grwpiau graddau staff ar gyfer pob math o staff


Math o staff	Graddau uwch	Graddau canol	Graddau is
Academiaidd	Grwpiau 1 a 2	Grŵp 3	Grwpiau 4 a 5
Anacademaidd	Grwpiau 1 a 3 a 4		Grŵp 5

Dylid arfer pwyll wrth ddehongli'r graffiau yn yr adran hon; oherwydd y niferoedd bychain o fewn grwpiau (yn enwedig ar gyfer staff ethnig leiafrifol), gall cyfrannau amrywio'n fawr rhwng blynnyddoedd ond heb newidiadau mawr mewn nifer.

Staff academiaidd

Bu cyfrannau uwch o staff o gefndir Gwyn a chefnidir ethnig Arall yn y grŵp graddau uwch, o'i gymharu â chefnidiroedd eraill

Siart 13: Canran y staff academiaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru yn y grŵp graddau uwch yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25



Disgrifiad: Mae cyfrannau'r staff academiaidd yn y grŵp graddau uwch wedi gostwng fel rheol ar gyfer pob grŵp ethnig leiafrifol ers 2016. Yn y cyfamser, mae canran y staff academiaidd o gefndir ethnig Gwyn yn y grŵp hwn wedi aros yn weddol sefydlog ers 2016.

Tabl 2: Nifer y staff academiaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru yn y grŵp graddau uwch yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Asiaidd	60	70	70	65	65	65	80	95	90
Du	10	10	5	5	10	10	5	10	10
Cymysg	15	10	10	10	10	10	10	10	10
Gwyn	1,305	1,255	1,135	1,125	1,105	1,105	1,120	1,170	1,135
Arall	50	50	40	45	40	40	40	45	40

Data yn Nhabl 1.10 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Ym mhob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2023/24, roedd staff academiaidd o gefndir ethnig Arall yn fwy tebygol o fod yn y grŵp graddau uwch na'r rhai o unrhyw gefndir ethnig arall. Fodd bynnag, newidiodd hyn yn 2024/25, gyda chyfran y staff o gefndir ethnig Gwyn (14.4%) yn mynd ychydig y tu hwnt i gyfran y staff o gefndir ethnig Arall (13.9%). Bu gan


y ddau grŵp hyn gyfrannau uwch o staff academiaidd yn y grŵp graddau uwch na grwpiau ethnig eraill am yr holl flynyddoedd a ddangosir.

Mae cyfran y staff academiaidd o gefndir ethnig Asiaidd yn y grŵp graddau uwch wedi gostwng ar y cyfan ers 2016/17, o 10.7% i 7.8%.

Gostyngodd cyfrannau'r staff academiaidd o gefndiroedd Du a Chymysg yn y grŵp graddau uwch yn sylweddol rhwng 2016/17 a 2024/25, gyda'r gyntaf yn gostwng o 8.7% i 3.1% a'r ail yn gostwng o 13.1% i 5.1%. Y rheswm dros hyn yw, er bod nifer y staff o'r cefndiroedd ethnig hyn wedi aros ar yr un lefel dros y blynyddoedd hyn, bod nifer y staff a gyflogir yn y grŵp graddau canol ac is wedi cynyddu.

Mae cyfran y staff o gefndir ethnig Du yn y grŵp graddau canol wedi bod yn cynyddu ers 2022/23 ond mae'n dal i fod yn is na grwpiau ethnig eraill

Siart 14: Canran y staff academiaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru yn y grŵp graddau canol yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25



Disgrifiad: Mae cyfrannau'r staff academiaidd yn y grŵp graddau canol wedi amrywio ar draws pob grŵp ethnig ers 2016/17

Tabl 3: Nifer y staff academiaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru yn y grŵp graddau canol yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Asiaidd	75	80	85	95	115	125	135	135	155
Du	5	10	10	5	10	10	10	15	20
Cymysg	5	10	10	10	15	20	25	25	30
Gwyn	1,150	1,195	1,195	1,190	1,205	1,195	1,270	1,285	1,305
Arall	40	40	40	45	40	45	45	45	40

Data yn Nhabl 1.10 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad


Yn 2024/25, roedd cyfrannau'r staff academiaidd o bob cefndir ethnig yn y grŵp graddau canol yn gymharol debyg ar gyfer y rhan fwyaf o gefndiroedd ethnig, ac eithrio staff o gefndir ethnig Du.

Yn 2024/25, roedd rhwng 13.7% a 16.5% o staff academiaidd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau canol ar gyfer pob un o'r grwpiau cefndir ethnig Asiaidd, Cymysg, Arall a Gwyn.

Fodd bynnag, dim ond 6.5% o staff academiaidd â chefnidir ethnig Du oedd yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau canol yn 2024/25. Er hynny, roedd hyn yn gynnydd o 2.2 pwynt canran o'i gymharu â 2022/23.

Mae staff academiaidd o gefndir ethnig Du wedi bod yn gyson yn fwy tebygol o fod yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau is

Siart 15: Canran y staff academiaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru yn y grŵp graddau is yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25



Disgrifiad: Mae cyfrannau'r staff anacademaidd yn y grŵp graddau is wedi aros yn weddol sefydlog ar draws y rhan fwyaf o grwpiau ethnig ers 2016/17. Mae cyfran y staff o gefndir ethnig Du yn y grŵp hwn wedi profi cynnydd nodedig ar y cyfan ers 2016/17, o 83.2% i 90.3% yn 2024/25.

Tabl 4: Nifer y staff academiaidd (ac eithrio rhai annodweddiadol) ym mhrifysgolion Cymru yn y grŵp graddau is yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Asiaidd	430	475	540	570	580	580	695	815	885
Du	75	90	95	115	140	150	220	250	255
Cymysg	80	80	100	120	130	135	140	150	170
Gwyn	6,210	6,165	6,145	5,960	5,565	5,565	5,720	5,655	5,465
Arall	190	175	170	165	170	175	210	210	220

Data yn Nhabl 1.10 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad


Mae staff academiaidd â chefnidir ethnig Du wedi bod yn fwy tebygol yn barhaus o fod yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau is (90.3% yn 2024/25) o'i gymharu â staff o gefndiroedd ethnig eraill. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfran y staff o gefndiroedd ethnig Du o'i gymharu â'r holl staff academiaidd yn y graddau is wedi cynyddu o 10.7 pwynt canran yn 2016/17 i 17.2 pwynt canran yn 2024/25.

Roedd cyfrannau'r staff o gefndiroedd ethnig Asiaidd neu gymysg yn y grŵp graddau is hefyd yn uwch na'r gyfran ar gyfer yr holl staff academiaidd yn 2024/25 (78.5% a 79.8%, o'i gymharu â'r gyfran ar y cyfan o 73.1%).

Staff anacademaidd

Mae'r bylchau rhwng cyfrannau'r staff anacademaidd o wahanol grwpiau ethnig yn y categori graddau uwch ar y cyfan wedi lleihau dros amser

Siart 16: Canran y staff anacademaidd ym mhrifysgolion Cymru yn y grŵp graddau uwch yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25



Disgrifiad: Mae cyfrannau'r staff anacademaidd yn y categori graddau uwch wedi cynyddu ar y cyfan ers 2016/17, ar gyfer pob grŵp ethnig.

Tabl 5: Nifer y staff anacademaidd ym mhrifysgolion Cymru yn y grŵp graddau uwch yn ôl cefndir ethnig, rhwng 2016/17 a 2024/25

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Asiaidd	115	105	105	100	125	135	170	200	205
Du	20	10	20	30	30	35	50	65	70
Cymysg	30	30	30	40	50	70	85	95	90
Gwyn	4,470	4,555	4,490	4,555	5,220	5,370	6,000	6,270	6,055
Arall	40	40	40	45	55	55	65	65	65

Data yn Nhabl 1.10 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Ar gyfer staff anacademaidd, mae cyfran y staff yn y grŵp graddau uwch wedi cynyddu fel rheol rhwng 2016/17 a 2024/25; felly y bu hi ar gyfer staff ym mhob grŵp cefndir ethnig.

Staff anacademaidd o gefndir ethnig Du yw'r lleiaf tebygol o fod yn cael eu cyflogi yn y grŵp graddau uwch ym mhob blwyddyn. Yn 2024/25, roedd cyfran y staff anacademaidd o'r cefndir hwn 12.2 pwynt canran yn is na'r gyfran ar gyfer yr holl staff anacademaidd. Dyma hefyd y flwyddyn gyntaf i gyfran y staff o gefndir ethnig Du ostwng ers 2017/18.

Cynyddodd cyfran y staff anacademaidd â chefnidir ethnig Cymysg a gyflogir yn y grŵp graddau uwch yn sylweddol o 31.9% yn 2016/17 i 55.1% yn 2024/25. Roedd y gyfran ar gyfer y grŵp hwn 6.0 pwynt canran yn is na'r gyfran ar y cyfan yn 2024/25, o'i gymharu â 12.3 pwynt canran yn is yn 2016/17.


Mae cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig Asiaidd yn y grŵp graddau uwch wedi amrywio ers 2016/17. Yn 2016/17, staff o gefndir ethnig Asiaidd oedd y mwyaf tebygol o fod yn cael eu cyflogi ar raddau uwch, gyda chyfran o 52.4%; roedd hyn 8.2 pwynt canran yn uwch na'r gyfran ar y cyfan. Yn 2024/25, 53.7% oedd y gyfran hon; roedd hyn 7.4 pwynt canran yn is na'r gyfran ar gyfer yr holl staff anacademaidd.

Gan mai dim ond dau grŵp graddau sydd ar gyfer staff anacademaidd (uwch ac is), roedd y patrymau ar gyfer y rhai a gyflogir yn y grŵp graddau is mewn cyfeiriad croes i'r grŵp graddau uwch. Bu gostyngiad ar y cyfan dros amser yng nghyfrannau'r staff anacademaidd sy'n gweithio ar radd is ar gyfer pob grŵp ethnig a lleihad tebyg yn y gwahaniaethau rhwng grwpiau cefndir ethnig.

Llywodraethwyr

Mae cyfran y llywodraethwyr o gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu dros amser

Siart 17: Canran y llywodraethwyr ym mhrifysgolion Cymru o gefndir ethnig leiafrifol, rhwng 2017/18 a 2024/25



Disgrifiad: Bu tuedd tuag i fyny fel rheol yng nghanran y llywodraethwyr o gefndir ethnig leiafrifol rhwng 2017/18 a 2024/25. Cododd y ganran yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, gyda'r cynnydd mwyaf yn digwydd rhwng 2019/20 a 2020/21.

Data yn Nhabl 1.11b yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Yn 2024/25, roedd 16.0% o lywodraethwyr o gefndir ethnig leiafrifol, o'i gymharu â 5.1% yn 2018/19. Yn 2017/18, roedd 3.0% o lywodraethwyr o gefndir ethnig leiafrifol, ond roedd nifer y llywodraethwyr â chefnidir ethnig anhysbys yn sylweddol uwch nag mewn blynyddoedd eraill.

Er bod cyfran y llywodraethwyr o gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu dros amser, roedd nifer sylfaenol y llywodraethwyr yn parhau i fod yn gymharol fach; roedd 10 llywodraethwr o gefndir ethnig leiafrifol yn 2018/19, ac fe gododd hynny i 25 yn 2024/25.

Diffiniadau a geirfa

Gellir dod o hyd i ddiffiniadau ar gyfer termau sy'n gysylltiedig â data diwedd cylch Israddedig UCAS 2025 [ar wefan UCAS](#), trwy edrych ar y dangosfwrdd Applicants, applications, acceptances and offers' o dan y pennawd Provider a nodi'r opsiwn 'Help'.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ddiffiniadau ar gyfer termau sy'n gysylltiedig â chofnodion Myfyrwyr a Staff HESA ar wefan [HSEA](#).

Cais (UCAS)

Cais i gwrs mewn darparwr a wneir gan ymgeisydd ym mhrif gynllun UCAS. Gall ymgeiswyr gyflwyno hyd at bum cais yn y prif gynllun.

Cefndir ethnig leiafrifol

Lle defnyddiwyd y term 'cefnidir ethnig leiafrifol' yn y cyhoeddiad hwn, mae'n cyfeirio at y grwpiau ethnig Asiaidd, Du, Cymysg ac Arall.

Cyflogaeth ar delerau parhaol (HESA)

Staff a gyflogir ar gontract cyflogaeth sy'n barhaol neu'n benagored. Mae hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio yn ystod y tymor yn unig a gyflogir ar gontract penagored.

Cynnig (UCAS)

Penderfyniad darparwr i roi lle i ymgeisydd. Gall fod ar yr amod bod yr ymgeisydd yn bodloni meini prawf academiaidd a/neu eraill.

Dechreuwyr (HESA)

Myfyriwr ym mhoblogaeth gofrestru safonol HESA a ddechreuodd ei gwrs yn ystod y flwyddyn academiaidd a gofnodwyd yw dechreuwr. Er enghraifft, byddai ymgeisydd yn 2024/25 wedi dechrau ei gwrs astudio rhwng 18 Gorffennaf 2024 ac 17 Gorffennaf 2025.

Byddai dechreuwyr a ddechreuodd eu cwrs ym mlwyddyn academiaidd 2021/22 neu'n gynharach wedi dechrau rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

Domisil (HESA)

Mae hyn yn cyfeirio at wlad cyfeiriad parhaol y myfyriwr ar adeg mynediad i'w gwrs. Er enghraifft, byddai myfyriwr â'i ddomisil yng Nghymru'n rhywun y mae ei gyfeiriad cartref yng Nghymru ar adeg mynediad i'w gwrs.

Gradd ddi-ddosbarth (HESA)

Gradd gyntaf a ddyfarnwyd heb ddosbarthiad anrhydedd safonol. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau nad yw'r dyfarniad a roddir ar eu cyfer yn cael ei briodoli i ddosbarth, fel rhai graddau meddygol a graddau cyffredin.

Llywodraethwyr (HESA)

Aelod o gorff llywodraethu darparwr addysg uwch.

Myfyriwr (HESA)

Person sy'n mynychu cwrs addysg uwch sy'n arwain at gymhwyster addysg uwch neu gredyd ar lefel addysg uwch.

Staff academiaidd (HESA)

Diffinnir staff ar gontract academiaidd fel gweithwyr proffesiynol â chontract ar gyfer cynllunio, cyfarwyddo a chyflawni addysgu ac ymchwil academiaidd o fewn darparwyr AU. Mae enghreifftiau o gontractau o'r fath yn cynnwys y rhai ar gyfer is-gangellorion, ymarferwyr meddygol, deintyddion, milfeddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n cyflawni gweithgareddau darlithio neu ymchwil.

Staff anacademiaidd (HESA)

Diffinnir staff ar gontract anacademiaidd fel aelodau o staff nad ydynt yn ddeiliaid contract academiaidd, gan gynnwys rheolwyr, gweithwyr proffesiynol anacademiaidd, gweithwyr lles myfyrwyr, ysgrifenyddion, gofalwyr a glanhawyr.

Wedi'i leoli ar gyfer mynediad (UCAS)

Mae hyn yn cyfeirio at ymgeiswyr sydd, ar ddiwedd y cylch derbyn, wedi sicrhau lle i fynd i mewn i addysg uwch

Ymgeisydd (UCAS)

Person sydd wedi gwneud cais yn system UCAS yn ystod y cylch yr adroddwyd arno (gan gynnwys ceisiadau am fynediad gohiriedig). Mae cyfrif yr ymgeiswyr yn cynnwys y rhai sy'n gwneud cais trwy'r prif gynllun, ymgeiswyr sy'n cyflwyno cais yn uniongyrchol trwy'r broses Glirio, a Chofnodion Derbyn Ymlaen llaw (RPAs).

Ffynonellau data a methodoleg

Data diwedd cylch Israddedig UCAS 2025

Mae'n cynnwys gwybodaeth am ymgeiswyr a cheisiadau i gyrsiau addysg uwch israddedig amser llawn trwy UCAS.

Nid yw'r data hyn yn Ystadegau Swydddogol gan nad yw UCAS yn gynhyrchydd Ystadegau Swydddogol. Fodd bynnag, mae UCAS yn un o fabwysiadwyr gwirfoddol y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau sy'n helpu i ddarparu sicrwydd bod y data o ansawdd da ac yn ddibynadwy.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y ffynhonnell ddata hon ar [wefan UCAS](#).

Cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Mae'n cynnwys gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU, er mai dim ond data'r rhai sy'n astudio mewn darparwyr yng Nghymru sy'n cael ei ddefnyddio yma.

Mae'r data ar fyfyrwyr nad ydynt yn parhau a ddefnyddir yn yr adran Cadw wedi deillio o Gofnod Myfyrwyr HESA. Mae HESA wedi defnyddio proses paru niwlog i dracio myfyrwyr rhwng blynyddoedd academiaidd. Mae'r paru niwlog hwn yn seiliedig ar gyfuniad o ddynodwyr, enwau, dyddiad geni, cod post, a nodweddion eraill myfyrwyr fel gwybodaeth am fynediad a phwnc.

Mae'r data ar fyfyrwyr nad ydynt yn parhau'n cynnwys dim ond dechreuwyr amser llawn â'u domisil yn y DU yn narparwyr y DU nad ydynt wedi gadael o fewn 50 niwrnod i'w dyddiad cychwyn. Dim ond myfyrwyr a oedd yn ddechreuwyr mewn darparwyr yng Nghymru'n wreiddiol sy'n cael eu cynnwys yn y data. Wrth dracio rhwng blynyddoedd academiaidd, efallai y ceir bod ymgeiswyr wedi trosglwyddo i ddarparwr unrhyw le yn y DU ond byddent yn dal i gael eu hystyried yn y mesur Cadw. Mae ystadegau sy'n seiliedig ar y ffynhonnell ddata hon yn Ystadegau Swydddogol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y ffynhonnell ddata hon ar [wefan HESA](#).

Cofnod staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Mae'n cynnwys gwybodaeth am staff mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU, er mai dim ond data ar y rhai sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n cael ei ddefnyddio yma. Nid yw staff yn y Brifysgol Agored wedi cael eu cynnwys gan bod data'r Brifysgol Agored yn cwmpasu staff ledled y DU gyfan yn hytrach na Chymru'n unigol.

Mae ystadegau sy'n seiliedig ar y ffynhonnell ddata hon yn Ystadegau Swydddogol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y ffynhonnell ddata hon ar [wefan HESA](#).

Talgrynnu

Mae'r ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir cyfansymiau ar ffigyrau heb eu talgrynnu ac yna maent yn cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf felly efallai na fyddant yn hafal i swm y rhannau cyfansoddol.

Cyfrifir canrannau gan ddefnyddio ffigyrau heb eu talgrynnu ac maent yn cael eu talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Gall hyn olygu efallai na fydd y canrannau yn y datganiad hwn yn cyfateb i'r hyn y byddech chi'n ei gyfrifo o'r ffigyrau wedi'u talgrynnu. Os cyfrifir canran lle mae'r enwadur yn llai na 22.5, yna ni ddangosir y ganran.

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Perthnasedd

Cyhoeddwyd y mesurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gyntaf gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gyflawni cam gweithredu yng [Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) Llywodraeth Cymru. Mae cyhoeddi'r fersiwn hon wedi'i diweddaru o'r mesurau'n darparu gwybodaeth gyfoes a all gyfrannu at fonitro cynnydd gyda'r cynllun hwn.

Mae'r mesurau hefyd yn cyfrannu at fonitro nodau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#), a hefyd at ddyletswyddau Medr o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (2022) a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Cywirdeb

Ar gyfer yr holl ffynonellau data, mae gwybodaeth am gefndir ethnig yn hunan-ddatganedig. Nid yw'n orfodol i ymgeiswyr, myfyrwyr na staff ddarparu'r wybodaeth hon felly mae cefndir ethnig yn anhysbys ar gyfer rhywfaint o'r boblogaeth ac efallai y bydd y rhai anhysbys hyn yn fwy tebygol o fod yn unigolion o gefndiroedd ethnig penodol.

Yn achos ymgeiswyr i addysg uwch, mae data UCAS yn darparu gwybodaeth am gyfran sylweddol o ymgeiswyr i addysg uwch. Fodd bynnag, ceir llwybrau eraill i wneud cais i addysg uwch felly nid yw'r data UCAS yn cwmpasu pob cais mewn modd cynhwysfawr.

Mae'r data a gesglir am fyfyrwyr yng nghofnod myfyrwyr HESA yn gynhwysfawr; fodd bynnag dim ond ar gyfer myfyrwyr y mae eu cyfeiriad parhaol ar adeg mynediad yn y DU y cesglir data ar gefndir ethnig. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar gyfer yr is-set honno o'r boblogaeth fyfyrwyr y mae'r wybodaeth hon ar gael yn hytrach na'i bod ar gyfer y boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Mae data ar staff yn cynnwys y rhai o bob cenedligrwydd, ond nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r rhai ar gontract annodweddiadol.

Mae nifer fach o unigolion yn llywodraethwyr ym Mhrifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac maent wedi cael eu cyfrif ddwywaith o ganlyniad gan bod hyn yn gyson â'r ffordd y mae llywodraethwyr yn cael eu cyfrif yn y data ar staff a gyhoeddir gan HESA.

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae'r data yn y datganiad hwn yn cwmpasu ceisiadau ar gyfer cylchoedd UCAS rhwng 2016 a 2025, ac ar gyfer y blynyddoedd academiaidd rhwng 2016/17 a 2024/25 ar gyfer data myfyrwyr a staff HESA. Dyma'r data diweddaraf sydd ar gael ar adeg cyhoeddi'r datganiad hwn.

Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddir gwybod am y datganiad ystadegol hwn ymlaen llaw ac yna fe'i cyhoeddir ar yr [adran Ystadegau ar wefan Medr](#).

Mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi fel PDF gyda llyfr gwaith i gyd-fynd ag ef sydd ar gael mewn fformat data agored (ODS). Mae'r datganiad a'r llyfr gwaith yn dilyn canllawiau hygyrchedd.

Cymharedd a chydlynïad

Bu newidiadau i'r categorïau cefndir ethnig y gall myfyrwyr a staff eu datgan yng nghofnodion myfyrwyr a staff HESA o 2022/23. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar y grwpiau ehangach a ddefnyddir yn y datganiad hwn.

Mae data myfyrwyr HESA 2023/24 yn cynnwys chwe darparwr a gyflwynodd ddata i gofnod myfyrwyr HESA am y tro cyntaf ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, dychwelodd y darparwyr hyn nifer gymharol fach o fyfyrwyr ac effaith fach iawn y mae hyn yn ei chael ar gymharu ffigyrau rhwng blynyddoedd.

Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae'r safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus wedi cael eu dangos a'u gwella yn y ffyrdd canlynol.

Dibynadwyedd

O'r dechrau mae'r mesurau wedi cael eu datblygu gan ystadegwyr proffesiynol yn ôl Datganiad Cydymffurfio Medr a'i bolisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau. Mae dyddiadau rhyddhau'n cael eu cyhoeddi ymlaen llaw, a dilynir protocolau ynghylch cyfrinachedd data.

O bryd i'w gilydd, gall diwygiadau ddigwydd oherwydd gwallau yn ein prosesau ystadegol neu pan fydd cyflenwr data yn hysbysu Medr eu bod wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir. Yn yr achosion hyn, bernir a yw'r newid yn ddigon arwyddocaol i gyhoeddi datganiad ystadegol diwygiedig. Lle nad ystyrir bod newidiadau'n arwyddocaol, bydd y ffigyrau'n cael eu cywiro os ydynt yn ymddangos mewn datganiadau yn y dyfodol.

Ansawdd

Daw'r data yn yr adroddiad hwn o ffynonellau data sydd wedi hen ennill eu plwyf.

Er nad yw data UCAS yn Ystadegau Swydddogol, mae UCAS yn un o fabwysiadwyr gwirfoddol y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau sy'n dangos eu hymrwymiad i gynhyrchu data dibynadwy o ansawdd da.

Mae HESA yn cyhoeddi eu data ar fyfyrwyr fel Ystadegau Swydddogol Achrededig a data ar staff fel Ystadegau Swydddogol, gan gynnwys gwybodaeth am gefndir ethnig. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r un ffynhonnell ddata y mae ei hansawdd wedi cael ei sicrhau i raddau helaeth ac mae'n darparu dadansoddiad manylach o'r ffigyrau ar gyfer myfyrwyr a staff mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru.

Gwerth

Cyhoeddwyd y mesurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gyntaf gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gyflawni cam gweithredu yng [Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) Llywodraeth Cymru. Mae cyhoeddi'r fersiwn hon wedi'i diweddarau o'r mesurau'n darparu gwybodaeth gyfoes a all gyfrannu at fonitro cynnydd gyda'r cynllun hwn.

Mae'r mesurau hefyd yn cyfrannu at fonitro nodau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#), a hefyd at ddyletswyddau Medr o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (2022) a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Ystadegau cysylltiedig

Mae'r datganiad cyntaf yn y gyfres 'Meurau monitro cydraddoldeb hil Addysg Uwch' a gyhoeddwyd gan CCAUC i'w weld ar wefan Medr. Roedd yn cynnwys [adroddiad ysgrifenedig](#) a dogfen ar wahân a oedd yn cynnwys [tablau data a siartiau](#). Cytunwyd ar y mesurau a gynhwyswyd yn dilyn ymgynghoriad gan CCAUC gyda'r mesurau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyhoeddi yn Atodiad C o gylchlythyr [W23/06HE](#). Cyhoeddwyd [diweddariad](#) i hyn gan Medr ym mis Hydref 2025.

Mae rhagor o ddata o'r ffynonellau data a ddefnyddir yn y datganiad hwn ar gael ar dudalen we [Monitro Diwedd Blwyddyn UCAS](#) a gwefan [Data Agored HESA](#).

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr erthygl ystadegol [Ystadegau dysgu ôl-16 yn ôl grŵp ethnig y dysgwyr](#), a ddaeth ag ystadegau tebyg ynghyd ar gyfer dysgwyr yn y chweched dosbarth, mewn addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith ac addysg oedolion. Nod yr erthygl oedd darparu ystadegau sylfaenol i gefnogi un o'r nodau yng [Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) i fonitro cyfranogiad, deilliannau a dilyniant yn systematig ar gyfer dysgwyr ôl-16 o wahanol gefndiroedd ethnig.

Roedd yr erthygl yn cynnwys ymrwymiad i ymgorffori'r dadansoddiad hwn yn yr adroddiadau ystadegol rheolaidd sy'n cwrpasu'r rhannau hyn o'r sector addysg drydyddol yn y dyfodol. Medr sy'n gyfrifol bellach am y rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn ac mae'n darparu ystod o ystadegau manwl.

Mae'r datganiad ystadegol [Addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol](#) yn darparu ystadegau ar ddysgwyr, rhaglenni a gweithgareddau a wneir mewn colegau, darparwyr dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol awdurdodau lleol. Mae'r dadansoddiad yn ôl cefndir ethnig dysgwyr ar dudalen 16 o'r adroddiad diweddaraf, gydag ystadegau mwy gronynnog ar gael yn y tablau sy'n cyd-fynd â'r adroddiad (gweler 'dogfennau eraill') ac ar [StatsCymru](#).

Mae ystadegau dros dro mwy diweddar ar ddechrau prentisiaethau yn ôl cefndir ethnig dysgwyr ar gael yn ein [dangosfwrdd rhyngweithiol](#).

Mae [Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyflawniad](#) yn darparu ystadegau ar gyflawni rhaglenni dysgu a chysiau unigol yn y chweched dosbarth ac mewn addysg bellach. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad yn ôl cefndir ethnig ar dudalennau 24 i 26 o'r prif adroddiad ac yn y tablau cysylltiedig canlynol:

- Tablau 1.8a, 1.8b, 1.9a a 1.9b – deilliannau rhaglenni addysg gyffredinol yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl, a rhywedd/rhyw
- Tabl 1.14 – deilliannau rhaglenni addysg gyffredinol yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a chymhwysra i gael prydau ysgol am ddim
- Tablau 2.8 a 2.9 – deilliannau rhaglenni galwedigaethol yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl, a statws Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill
- Tablau 3.8 a 3.9 – Deilliannau Bagloriaeth Cymru yn ôl grwpiau ethnig cyfanredol a manwl
- Tablau 4.4 a 5.7 – mesurau cyrsiau yn ôl maes pwnc sector a grŵp ethnig cyfanredol.

Mae [Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned](#) yn darparu ystadegau ar lwyddiant a chwblhau prentisiaethau a gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae dadansoddiad o gyfraddau llwyddo prentisiaethau yn ôl cefndir ethnig ar gael ar dudalennau 11 i 12 o'r prif adroddiad ac yn y tablau cysylltiedig canlynol:

- Taflen waith 1.1a - Deilliannau prentisiaethau yn ôl sector, fframwaith, rhaglen a nodweddion dysgwyr, rhwng mis Awst 2024 a mis Gorffennaf 2025 [r]
- Taflen waith 1.1b - Deilliannau prentisiaethau yn ôl maes pwnc sector, fframwaith, rhaglen a nodweddion dysgwyr, rhwng mis Awst 2024 a mis Gorffennaf 2025 [r]
- Taflen Waith 1.4 - Deilliannau prentisiaethau yn ôl cefndir ethnig, rhwng mis Awst 2024 a mis Gorffennaf 2025
- Taflen waith 2.2 - Deilliannau gweithgareddau dysgu oedolion yn ôl cefndir ethnig, rhwng mis Awst 2024 a mis Gorffennaf 2025

Mae [Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 \(cyrchfannau dysgwyr\)](#) yn cynnwys dadansoddiad o gyrchfannau cyflogaeth a dysgu ar gyfer dysgwyr addysg bellach, chweched dosbarth mewn ysgolion a dysgu seiliedig-ar-waith yn y flwyddyn ar ôl eu rhaglen astudio. Mae'r rhain yn ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu. Mae dadansoddiad o gefndir ethnig dysgwyr ar gael ar dudalennau 13 i 15 o'r prif adroddiad ac yn y tablau canlynol sy'n cyd-fynd ag ef:

- Tabl 9a i 9c - Cyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn ôl ethnigrwydd a sector, 2021/22 a 2022/23

Mae ystadegau ar [Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol](#) yn ôl cefndir ethnig dysgwyr hefyd ar gael ar dudalen 11 o'r prif adroddiad a'r tablau sy'n cyd-fynd ag ef.

Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir cyfeirio adborth, cwestiynau a cheisiadau am ragor o ddata trwy anfon neges e-bost i HEStats@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government